Cyllid &
Thollau EM

# Nodiadau: Senedd Cymru

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2020 i 5 Ebrill 2021 (2020–21)

## Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Senedd Cymru eich Ffurflen Dreth

Dylech lenwi'r tudalennau 'Senedd Cymru' os oeddech:

- yn Aelod o'r Senedd
- yn Weinidog yn Llywodraeth Cymru

Bydd angen i chi lenwi un dudalen 'Senedd Cymru' ar gyfer eich swydd yn y Senedd ac ar gyfer eich swydd fel Gweinidog. Nid oes angen i chi lenwi tudalennau 'Senedd Cymru' ar wahân os gwnaethoch newid swyddi Gweinidogol neu os cawsoch eich ail-ethol yn ystod y flwyddyn.

Os oedd gennych swydd ar wahân neu swydd fel cyfarwyddwr, bydd yn rhaid i chi hefyd lenwi tudalen 'Cyflogaeth'.

Os nad oes gennych yr wybodaeth sydd ei hangen arnoch, rhowch eich amcangyfrif gorau ac ym mlwch 14, rhowch wybod i ni pryd yr ydych yn disgwyl rhoi'r ffigur terfynol i ni.

### Eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr

Rhowch eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yn y blychau ar frig y ffurflen. Mae eich UTR ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad neu ar lythyr gennym ni ynghylch eich Hunanasesiad.

## Incwm o'ch swydd

Ceir gwybodaeth ynglŷn â'r hyn rydych wedi ei ennill a'r dreth a dalwyd gennych o'ch:

- P45, 'Manylion cyflogai sy'n gadael gwaith'
- P60, 'Tystysgrif Diwedd Blwyddyn'
- Ffurflen Swyddfa Ffioedd

Rhaid i unrhyw gyflogwr rydych yn gweithio iddo ar 5 Ebrill 2021 roi P60 i chi erbyn 31 Mai 2021.

### Blwch 1 Taliadau o P60 (neu P45 neu slipiau cyflog)

Defnyddiwch y ffigur o'ch P60, P45 neu eich ffurflen Swyddfa Ffioedd i lenwi blwch 1.

Os gadawsoch gyflogaeth yn ystod y flwyddyn, rhowch y ffigur sydd yn yr adran 'Cyfanswm y cyflog yn y gyflogaeth hon' ar eich P45 ym mlwch 1. Os oes gennych P60, rhowch y ffigur yn yr adran 'Yn y gyflogaeth hon' ym mlwch 1. Bydd eich ffurflen Swyddfa Ffioedd yn dangos eich manylion cyflog a threth ar gyfer y flwyddyn.

Os oedd gennych fwy nag un swydd yn y flwyddyn dreth, gall eich ffurflen P60 gynnwys manylion eich swydd flaenorol. Caiff y rhain eu hychwanegu at ei gilydd i ddangos cyfanswm eich enillion. Dylech ond nodi eich cyflog fel Aelod o'r Senedd ar y tudalennau 'Senedd Cymru'. Rhowch eich cyflog o'ch swydd arall ar dudalen 'Cyflogaeth'.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm cyflog yn y gyflogaeth hon | £ | 9,283.91 | c |
| Cyfanswm y dreth yn y gyflogaeth hon | £ | 1,336.42 | c |

Enghraifft o P45

| | | os ad-daliad rhowch 'R' |
|---|---|---|
| Yn y gyflogaeth hon | ★ 9,283 91 | |
| Cyfanswm am y flwyddyn | 9,283 91 | |

Enghraifft o P60

Mae angen i chi roi'r holl incwm a gafwyd gennych o 6 Ebrill 2020 i 5 Ebrill 2021 ym mlwch 1. Mae hyn yn cynnwys unrhyw:

- waith a wnaethoch mewn blwyddyn gynharach ond na chawsoch eich talu amdano tan ar ôl 5 Ebrill 2020
- gwaith y byddwch yn ei wneud mewn blwyddyn hwyrach y cawsoch eich talu amdano rhwng 6 Ebrill 2020 a 5 Ebrill 2021
- taliad na wnaethoch gymryd ond y gwnaethoch drefnu ei ddefnyddio mewn modd arall, er enghraifft, fel cyfraniad i elusen

Peidiwch â chynnwys:

- buddiannau a thaliadau am dreuliau a gawsoch – mae'r rhain yn mynd ym mlychau 3 i 9
- cyfandaliadau a dalwyd wrth adael neu ymddeol – mae'r rhain yn incwm ar ôl cyflogaeth ac yn mynd ym mlychau 3 i 9 ar dudalen Ai 2 y tudalennau 'Gwybodaeth ychwanegol'
- taliadau i Gynllun Pensiwn y Senedd

### Blwch 2  Treth a ddidynnwyd o'r swm ym mlwch 1

Rhowch swm y dreth a dalwyd gennych ar eich incwm ym mlwch 2.

## Buddiannau o'ch swydd

Os cawsoch unrhyw fuddiannau neu dreuliau heb eu heithrio o'ch swydd, bydd yn rhaid i chi eu cynnwys ar eich tudalennau 'Senedd Cymru'. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn rhoi manylion i chi ar y ffurflen P11D, 'Treuliau a buddiannau'. Os nad ydych yn cael copi o'ch P11D erbyn 6 Gorffennaf 2021, cysylltwch â'r Swyddfa Ffioedd.

Os yw eich swydd wedi talu'ch buddiannau a threuliau 'drwy'r gyflogres' (golyga hyn bod treth wedi'i didynnu o'ch cyflog a'i chynnwys yn eich P60) peidiwch â'u cynnwys ym mlychau 3 i 9.

Fel arall, bydd rhaid i'ch cyflogwr roi manylion o'ch buddiannau a threuliau i chi ar ffurflen P11D, 'Treuliau a buddiannau'. Rhowch y manylion o'ch P11D ym mlychau 3 i 9.

Peidiwch â chynnwys eitemau sydd wedi eu cwmpasu gan yr eithriad ar gyfer treuliau wedi'u talu neu eu had-dalu. Nid yw'r rhain ar eich P11D ac ni ddylech eu cynnwys ym mlychau 3 i 9.

### Blwch 3  Costau teithio'r teulu

Os gwnaethoch ddefnyddio eich lwfans ar gyfer teithiau gan eich teulu, rhowch y ffigur ar eich P11D ym mlwch 3. Os yw ffigur y P11D yn cynnwys ychydig o deithio busnes gan aelod o'ch teulu sy'n gweithio i chi fel ysgrifennydd neu ymchwilydd, gallwch hawlio cost y teithio busnes ym mlwch 10.

### Blwch 4  Llety, ac eithrio Gwariant ar Lety Preswyl

Os yw eich llety yn drethadwy, rhowch y ffigur ar eich P11D ym mlwch 4.

Peidiwch â chynnwys eich taliad am Wariant ar Lety Preswyl – nid ydych yn talu treth ar hwn.

### Blwch 5  Lwfans Costau Swyddfa

Os talwyd neu ad-dalwyd unrhyw dreuliau swyddfa i chi gan y Swyddfa Ffioedd, ychwanegwch y symiau at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 5. Gall hyn gynnwys:

- rhent ar gyfer swyddfa, gan gynnwys trethi busnes
- gwres, golau, galwadau ffôn a deunydd ysgrifennu
- cyflogau ar gyfer cynorthwywyr ysgrifenyddol neu ymchwil, gan gynnwys cynorthwywyr achlysurol rydych yn eu cyflogi
- cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr

Gallwch hawlio'r treuliau hyn ym mlychau 10 i 13.

Peidiwch â chynnwys eitemau cyfalaf fel cyfarpar swyddfa – mae'r rhain yn mynd ym mlwch 13.

### Blwch 6  Lwfans Cynnal Grŵp

Os ydych yn Arweinydd Plaid, dylech gynnwys swm y Lwfans Cynnal Grŵp a gawsoch ym mlwch 6. Gallwch hawlio'r treuliau hyn ym mlychau 10 i 13.

**Peidiwch â chynnwys** eitemau cyfalaf a dalwyd fel Lwfans Cynnal Grŵp – mae'r rhain yn mynd ym mlwch 13.

### Blwch 7  Ad-daliadau arian parod eraill

Ym mlwch 7 rhowch y swm a ad-dalwyd i chi gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer:

- llogi cerbyd neu gostau tacsi
- unrhyw gostau eraill na chawsant eu nodi mewn man arall ar eich tudalennau 'Senedd Cymru'

Gallwch hawlio'r treuliau hyn ym mlychau 10 i 13.

### Blwch 8  Pob buddiant arall

Nodwch ym mlwch 8 y cyfanswm ar eich P11D nad ydych wedi'i nodi mewn man arall ar eich tudalennau 'Senedd Cymru'. Gall hyn gynnwys:

- car a thanwydd
- ffonau cartref
- talebau neu gardiau credyd

### Blwch 9  Taliadau mantoli

Os byddwch yn gwerthu neu'n peidio â defnyddio eitem yn eich busnes y buoch yn hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, efallai bydd yn rhaid i chi dalu tâl mantoli.

> I gael rhagor o wybodaeth am gyfrifo lwfansau cyfalaf a thaliadau mantoli, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

## Treuliau'r swydd a dalwyd gennych

Gallwch hawlio dim ond am y costau y bu'n rhaid i chi eu talu er mwyn gwneud eich swydd. Mae'n bosib na all yr holl gostau y gallwch eu hawlio o'r Swyddfa Ffioedd fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad treth. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â hawlio rhyddhad treth ar dreuliau siaradwch â'r Swyddfa Ffioedd neu ffoniwch ein llinell gymorth ar **03000 534 720**.

Peidiwch â gwneud cais am gostau y gallwch eu hawlio fel traul gan y Swyddfa Cyllid ac sydd wedi'u cwmpasu gan yr eithriad ar gyfer treuliau wedi'u talu neu eu had-dalu.

Ni all cyfanswm eich treuliau fod yn fwy na'ch incwm plws y taliadau a gewch gan y Swyddfa Ffioedd.

### Blwch 10  Costau teithio'r teulu

Os oedd y ffigur a roesoch ym mlwch 3 yn cynnwys ychydig o deithio busnes, er enghraifft, mae eich priod neu bartner yn teithio ar gyfer ei swydd fel eich ysgrifennydd neu ymchwilydd, bydd yn rhaid i chi gyfrifo cost y teithio busnes a nodi'r swm ym mlwch 10.

**Enghraifft**

Defnyddiodd John ei lwfans teithio ar gyfer teulu i dalu am docynnau trên gwerth £520. Mae ei gyflogwr yn dangos hyn ar ei P11D. Fodd bynnag, mae hwn yn cynnwys y £120 a wariodd partner John ar deithio fel ymchwilydd John.

Mae'n rhaid i John ddangos y gost teithio busnes a theithio personol ei deulu ar wahân ar ei dudalennau 'Senedd Cymru'.

Mae John yn rhoi £520 ym mlwch 3 ar gyfer ei lwfans teithio ar gyfer teulu a £120 ym mlwch 10 ar gyfer cost teithio busnes ei bartner.

### Blwch 11 Cymorth ysgrifenyddol, clercaidd ac ymchwil

Gallwch hawlio'r treuliau ar gyfer cyflogi rhywun i'ch helpu gyda'ch gwaith papur. Ym mlwch 11 rhowch gyfanswm cyflogau'r staff:
- a daloch yn uniongyrchol o'ch cyllid eich hunan
- a dalwyd neu ad-dalwyd i chi gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer cyflogau staff, a roesoch ym mlwch 5

### Blwch 12 Treuliau swyddfa

Gallwch hawlio'r gost o redeg eich swyddfa o ddydd i ddydd ym mlwch 12. Mae hyn yn cynnwys:
- costau gwres, golau, ffôn a deunyddiau ysgrifennu – gall hwn fod yr un swm a dalwyd i chi gan y Swyddfa Ffioedd ar gyfer y costau hyn, ac a roesoch ym mlwch 5
- unrhyw dreuliau'r swyddfa y gwnaethoch dalu'n uniongyrchol, ac nid drwy'r Swyddfa Ffioedd. Er enghraifft, os oes angen eitem arnoch i redeg eich swyddfa ond rydych wedi gwario'r Lwfans Costau Swyddfa, gallwch hawlio rhyddhad treth ar ei chyfer ym mlwch 12, hyd yn oed os na allwch hawlio'r gost gan y Swyddfa Ffioedd

Peidiwch â chynnwys:
- cyflogau'r staff – mae'r rhain yn mynd ym mlwch 11
- unrhyw dreuliau os ydych wedi hawlio Gwariant ar Lety Preswyl ar gyfer yr un eiddo

### Blwch 13 Treuliau eraill a lwfansau cyfalaf

Gallwch ond hawlio am eitemau y byddai eu hangen ar unrhyw Aelod o Senedd Cymru i wneud eich swydd.

Ym mlwch 13, gallwch hawlio'r gost o unrhyw dreuliau eraill nad ydych wedi eu rhoi unrhyw le arall ar eich tudalennau 'Senedd Cymru'.

Gallwch hefyd hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer y gost o brynu a gwella cyfarpar sydd eu hangen arnoch er mwyn gwneud eich swydd, megis desgiau a chypyrddau cadw ffeiliau. Bydd y math o lwfans cyfalaf a'r swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar y gost ac amgylchiadau eraill.

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer:
- cyfarpar TG a ddarparwyd o dan drefniadau'r Senedd
- eitemau rydych yn prynu ar gyfer, neu i'w defnyddio, yn eich cartref eich hunan
- y gost o brynu car

Os gwnaethoch brynu cyfarpar efallai y byddwch yn gallu hawlio'r lwfansau canlynol:
- Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) (ni allwch hawlio LBB ar gyfer rhoddion) – i weld beth yw'r uchafsymiau ac i gael arweiniad arall, ewch i www.gov.uk/capital-allowances/annual-investment-allowance
- Lwfans ar Bapur (LAB) - os yw'r gost o brynu cyfarpar yn fwy na'r uchafswm ar gyfer LBB, mae'r hyn sydd dros ben yn mynd i 'gronfa'
  - mae'r gost ar gyfer y rhan fwyaf o gyfarpar yn mynd i'r brif gronfa
  - gallwch hawlio 18% o weddill y 'brif gronfa' fel LAB, a chario'r swm sydd dros ben ymlaen i'r flwyddyn nesaf
  - gallwch hawlio 6% o'r gweddill yn y gronfa gyfradd arbennig fel LAB, mae'r gronfa gyfradd arbennig ar gyfer gwariant ar
    - nodweddion hanfodol adeilad neu strwythur, megis systemau trydanol a systemau dŵr, goleuadau, lifftiau a grisiau symudol
    - defnydd inswleiddio y gwnaethoch ei ychwanegu at adeilad sy'n bodoli eisoes
    - asedion neu gyfarpar ag iddynt oes ddisgwyliedig o fwy na 25 mlynedd o'r adeg pan oeddent yn newydd
- Lwfans Cronfeydd Bychain (LCB) – os yw cyfanswm gwerth eich 'cronfa' yn £1,000 neu'n llai, gallwch hawlio'r swm cyfan fel LCB yn hytrach na hawlio LAB

Os ydych yn defnyddio'r cyfarpar ar gyfer defnydd busnes a phreifat, bydd yn rhaid i chi ostwng eich hawliad gan swm y defnydd preifat.

**Enghraifft 1**

Mae Gareth yn creu swyddfa yn ei gartref, gan wario £5,000 ar gyfarpar TG. Nid yw'r Swyddfa Ffioedd yn ad-dalu Gareth am y gost hon. Mae'n defnyddio'r cyfarpar 70% o'r amser ar gyfer ei waith a 30% o'r amser ar gyfer defnydd personol, felly bydd yn rhaid iddo ostwng swm y Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) a hawlir gan swm ei ddefnydd personol - 30%.

Gall Gareth hawlio LBB o £3,500 (£5,000 llai 30% ar gyfer defnydd preifat).

Byddai'n rhaid i Gareth hefyd ostwng uchafswm yr LBB y gallai hawlio os oedd ei amser yn y swydd yn llai na 12 mis.

**Enghraifft 2**

Daeth Jennifer yn Aelod o'r Senedd ar 11 Mai 2020, a gwariodd £20,000 wrth sefydlu ei swyddfa. Nid yw'r Swyddfa Ffioedd yn ad-dalu'r gost hon. Mae hi hefyd yn defnyddio gliniadur a roddwyd iddi fel rhodd. Ei werth ar 11 Mai oedd £500.

Gall Jennifer hawlio LBB o £20,000. Ni all hawlio LBB ar werth yr anrheg, ond gall hawlio LAB.

Uchafswm y LAB y gall ei hawlio

Mae'r LAB wedi ei ostwng gan 330/365 oherwydd nid oedd Jennifer yn Aelod o'r Senedd am flwyddyn gyfan

18% x 330/365 = 16.28%
£500 x 16.28% = £82

Gall Jennifer hawlio LAB o £82. Mae hi'n cario'r £418 (£500 llai £82) sy'n weddill yn y gronfa, ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

Mae Jennifer yn hawlio lwfansau cyfalaf o £20,082 (£20,000 LBB plws £82 LAB) ym mlwch 13.

I gael rhagor o wybodaeth am lwfansau cyfalaf a chostau mantoli, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

## Unrhyw wybodaeth arall

**Blwch 14**

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol yn y blwch hwn, er enghraifft y rheswm pam y gwnaethoch ddefnyddio symiau dros dro a'r dyddiad y byddwch yn rhoi eich ffigurau terfynol i ni.

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

Os na allwch fynd ar-lein:

- ffoniwch ein llinell cymorth yn Adran Gyhoeddus 1 (PD1) ar 03000 534 720 i gael cymorth gyda'ch Ffurflen Dreth
- ffoniwch PD1 ar y llinell cymorth uchod neu gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM ar 0300 200 1900 i gael copïau papur o'r taflenni cymorth a ffurflenni

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.